

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

S Aspey	H T Bennett	G Chappell	DK Edwards
P Ford	J Gebbie	RM Granville	J Holmes
R Howells	M R John	L Lewis	S Parker
E Richards	I M Spiller	L Teahan-Dyer	Y Walton-Davies
MJ Williams	E D Winstanley	T Wood	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

B Doughty, M Jones a/ac R J Smith

Swyddogion:

Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Lowri-Mair Owen	Swyddog Adnoddau Naturiol & Lles
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Andrew Rees	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

1. DATGANIADAU YNGHYLCH BUDDIANNAU

Datganodd y Cyngorydd H Bennett fudd personol yn eitem 4 ar yr agenda Rhwydwaith Natur Cwm Taf – Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

2. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 2 Chwefror 2022 fel cofnod gwir a chywir.

3. RHWYDWAITH NATUR CWM TAF - GRANT GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLESIANT

Dyweddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wrth y Fforwm y bydd Blaenraglen waith o eitemau yn cael ei datblygu gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod o'r Fforwm er mwyn ychwanegu neu ddiwygio eitemau i gael cynllun clir i'r dyfodol a gellir blaenoriaethu eitemau yn ôl yr angen.

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad a oedd yn hysbysu'r Fforwm am Brosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf sy'n fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW). Rhoddwyd diweddariad i'r Fforwm ar gynnydd ac effaith y prosiect yn ystod cam 1 o gyflawni'r prosiect. Dywedodd mai nod Rhwydwaith Natur Cwm Taf oedd ffurfio cydweithrediad i reoli seilwaith gwyrdd Rhanbarth Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn well a'r Cyngor hwn fyddai'r corff arweiniol ar gyfer cyflawni'r prosiect ar draws y Rhanbarth.

Derbyniodd y Fforwm gyflwyniad gan y Swyddog Adnoddau Naturiol a Llesiant ar Brosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf, sy'n cael ei ariannu 100% gan Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Dywedodd mai un o'r pethau y gellir eu cyflawni o fewn y prosiect

Yw ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth dros eu mannau gwyrdd, i deimlo'n ddiogel yn y mannau gwyrdd hynny ac i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nod arall y prosiect yw cryfhau bioamrywiaeth, ei wella a'i ddiogelu trwy weithio gydag ystod o arbenigwyr a sefydliadau o ddiddordeb.

Dywedodd y Swyddog Adnoddau Naturiol a Llesiant wrth y Fforwm fod 20 o fannau gwyrdd wedi'u nodi ar draws y tair sir a fydd yn cael eu rheoli fel rhwydwaith cysylltiedig o fannau gwyrdd, wedi'u dylanwadu'n bennaf gan botensial cysylltedd ecolegol pedair rhywogaeth y mae'r prosiect wedi ymrwymo i'w gwarchod. Roedd safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u dewis lle mae gan swyddogion fwy o ddylanwad dros le mae nifer o warchodfeydd natur leol sy'n cael eu rheoli'n weithredol neu lle mae presenoldeb gwirfoddolwyr cryf. Ethos y prosiect yw iddo gael ei arwain gan y gymuned, gyda photensial mewn llawer o'r mannau gwyrdd i adeiladu ar hynny. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio cefnogi rhai grwpiau i greu safleoedd enghreifftiol, yn enwedig o ran ymgysylltu synhwyraidd.

Dywedodd y Swyddog Adnoddau Naturiol a Llesiant hefyd wrth y Fforwm fod rhai o'r safleoedd eisoes â mynediad rhagorol, fodd bynnag, mae cyfraniad tuag at wella mynediad i fannau gwyrdd sydd heb fynediad da yn cael ei ystyried. Yng ngham 1, mae Direct Access, sy'n sefydliad sy'n cael ei arwain gan anabledd 100% wedi'i gomisiynu i helpu i wella mynediad i safleoedd. Bydd eu canfyddiadau, ynghyd â chanfyddiadau archwiliad iechyd a diogelwch, i'w cyflawni erbyn canol mis Medi a chyfeirir at y Cynllun Rheoli Tir fel rhan o'r gwaith arolwg sy'n cael ei wneud.

Eglurodd y Swyddog Adnoddau Naturiol a Llesiant yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect a oedd i'w gyflawni'n wreiddiol dros 3 blynedd, a fyddai bellach yn cael ei gyflawni dros gyfnod o 12 mis erbyn mis Mehefin 2023. Nodweddion gweithgarwch cadwraeth amgylcheddol y prosiect, gwella llwybrau, cynlluniau plannu, prosiectau mynediad a gosod dodrefn. Yn ogystal, roedd pedair taith gerdded bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi'u nodi i gynnwys gwell ystâd, storfa ddiogel ac amddiffynnol i feiciau. Bydd teithiau cerdded iechyd yn cael eu nodi i annog gweithwyr i gael cyfarfodydd cerdded a chefnogi canlyniadau lles. Byddai grwpiau Cyfeillion yn cael eu sefydlu a bydd gwirfoddolwyr cefn gwlad yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r offer sydd eu hangen arnynt ac i gael mynediad at unrhyw hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i lwyddo gyda rheolaeth barhaus ar gynefinoedd i greu mannau gwyrdd o ansawdd uchel. Amlinellodd hefyd ganlyniadau meddalach y prosiect, i gynnwys darpariaeth gwyliau'r haf, a oedd wedi'i hymestyn i fis Rhagfyr. Dywedodd y gellid ystyried y gronfa lefelu i gryfhau'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Holodd aelod o'r Fforwm sut y dewiswyd y safleoedd a pha ymgynghori a gynhaliwyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol wrth y Fforwm y byddai angen iddo gadarnhau'r ymgysylltu a wnaed. Dywedodd fod astudiaethau a gomisiynwyd wedi'u defnyddio i nodi safleoedd sy'n addas ar gyfer y prosiect ac er bod y cyllid yn £580m, ni fyddai'n ymestyn ymhell ymhlith yr holl Gynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd yr Arweinydd pe bai cyfnodau yn y dyfodol, byddai'n croesawu cyfranogiad y Cynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Swyddog Adnoddau Naturiol a Lles wrth y Fforwm y bydd mwy o fuddsoddiad yn y Fwrdeistref hon oherwydd bod llawer mwy o safleoedd.

Dywedodd aelod o'r Fforwm fod Cyngor Cymuned Coety Uchaf yn edrych ar y Llwybr Du y gellid ei ddatblygu gyda Chyngor Cymuned gyfagos ac ychydig o fannau gwyrdd unwaith y bydd datblygiad Parc Derwen wedi'i gwblhau. Gofynnodd a ddylai Cynghorau Tref a Chymuned aros wrth ariannu'r prosiectau mannau gwyrdd, maent wedi cynllunio pe bai cyfran arall o arian ar gael. Gofynnodd yr Arweinydd i'r pwynt hwn gael ei godi gyda swyddogion y tu allan i'r cyfarfod i weld a allai gyd-fynd â'r ail gam. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod y Swyddog Adnoddau

Naturiol a Llesiant yn awyddus i dderbyn adborth a syniadau ar gynlluniau posibl. Dywedodd fod sawl cynllun blaenorol wedi bod yn y gorffennol ym maes bioamrywiaeth a chredai y byddai cynlluniau yn y dyfodol, yn enwedig gyda'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, er nad oedd canlyniad y cais hwnnw'n hysbys eto. Dywedodd hefyd fod swyddogion yn awyddus i fynd ar drywydd cyfleoedd gyda Chynghorau Tref a Chymuned i wella ardaloedd pe bai cyllid pellach ar gael.

Credai aelod o'r Fforwm nad oedd ei Gyngor Cymuned wedi bod yn destun ymgynghoriad ar y prosiect a chroesawodd y buddsoddiad mewn mannau gwyrdd. Credai'r aelod y dylid gwneud y defnydd gorau o'r Fforwm yn ei Blaenraglen waith dros y tymor hwn drwy gyfrannu at ddatblygu mannau gwyrdd hygyrch, yn enwedig gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a datblygu mannau a ystyrir fel amgylchedd iach yn Nhrelales. Dywedodd yr Arweinydd y bydd mentrau'n cael eu harchwilio o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig Ffordd Morgannwg a'i bod yn bwysig sicrhau bod y cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei wario.

Cyfeiriodd aelod o'r Fforwm at hanes Cyngor Cymuned Coety Uchaf o weithio gyda'r Fwrdeistref Sirol i drosglwyddo asedau ac uwchraddio llwybrau am gost sylweddol is a gofynnodd a oedd hanes y Cynghorau Tref a Chymuned a'u parodrwydd i weithio gyda phartneriaid yn berthnasol yn cael eu hystyried. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod y prosiect hwn i annog ymgysylltiad a grymuso cymunedol gan arwain at Gynghorau Tref a Chymuned yn cymryd rhan mewn cynlluniau. Dywedodd y Swyddog Adnoddau Naturiol a Llesiant fod ymgysylltu â'r gymuned yn ganolog i'r prosiect er mwyn llwyddo i reoli mannau gwyrdd yn gynaliadwy drwy wirfoddoli. Dywedodd y byddai ganddi ddiddordeb clywed gan Gynghorau Tref a Chymuned ynghylch lefel y gwirfoddoli a'r gweithgarwch mewn mannau gwyrdd.

Wrth gloi'r cyfarfod, llongyfarchodd yr Arweinydd aelodau'r Fforwm ar eu hetholiad diweddar a'u hail-ethol i'w rolau.

PENDERFYNWYD: Bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r adroddiad.

4. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:40